Cofrestru / Atgyfeirio Gofalwr – Nodyn Esboniadol

Ydych chi'n Ofalwr?

Ydych chi'n gofalu am berthynas, ffrind neu gymydog, sy'n sâl, eiddil, anabl, yn dioddef o broblem iechyd meddwl neu'n defnyddio sylweddau'n broblemus ac na allai ymdopi heb eich cymorth chi? Os felly, rydych chi'n Ofalwr, ac mae sawl ffordd y gallwch gael cymorth a chefnogaeth. Yn gyntaf, treuliwch ychydig funudau'n darllen y nodyn hwn ac yna llenwch y ffurflen dros y dudalen, os gwelwch yn dda.

Pam ddylech chi lenwi'r Ffurflen Cofrestru Gofalwr

Mae eich Meddygfa yn rhan o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr (BmG), sy'n anelu at sicrhau bod Gofalwyr yn derbyn cydnabyddiaeth o'u rôl gofalu a gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar eu cyfer. Dylech chi fod wedi derbyn copi o'r daflen Buddsoddwyr mewn Gofalwyr gyda'r ffurflen gofrestru hon. Mae'r daflen yn rhoi mwy o fanylion am fanteision cofrestru fel Gofalwr.

Trwy lenwi **Adran A**, bydd eich Meddygfa yn eich cofnodi chi fel Gofalwr ar eich Cofnod Claf.

Mae **Adran B** yn cyfeirio at y cymorth sydd ar gael i Ofalwyr trwy Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr (CCIS). Gall y cymorth hwn gynnwys:

- Apwyntiad gyda Gweithiwr Allgymorth Gofalwyr, a all gwrdd â chi yn eich cartref neu mewn lleoliad o'ch dewis chi. Maent yn rhoi clust i wrando a gallant eich helpu i flaenoriaethu eich anghenion a rheoli effaith eich rôl gofalu yn well.
- Pecyn Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr, sy'n cynnwys gwybodaeth ar amryw bynciau, megis cymorth ymarferol, budd-daliadau a materion cyfreithiol. Mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau eraill a all gynnig cymorth i chi a/neu'r person sy'n derbyn gofal.
- Newyddion Gofalwyr Sir Gâr, sef cylchlythyr chwarterol am ddim, sy'n llawn gwybodaeth am wasanaethau, manylion am ddigwyddiadau a materion sy'n berthnasol i Ofalwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal.
- Os oes rhywun arall yn eich helpu gyda'ch rôl gofalu, mae'n bosib byddwn yn gofyn ydyn nhw eisiau i ni gysylltu, er mwyn iddynt gael mynediad at gymorth a chefnogaeth (e.e. gan y prosiect Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr, i'r rheini sydd rhwng 16-25 oed).

Os am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ar **0300 0200 002** neu e-bostiwch **info@carmarthenshirecarers.org.uk**, os gwelwch yn dda.

Gall Gofalwyr sy'n gofalu, neu sy'n bwriadu gofalu am rywun ofyn i'r adran Gofal Cymdeithasol am Asesiad Gofalwyr. I ofyn am Asesiad Gofalwyr, cysylltwch â'r Llinell Ofal ar 01267 224466.

Beth sy'n digwydd wedi i chi ddychwelyd y ffurflen, wedi'i llenwi, i aelod o staff y Feddygfa?

Unwaith bydd aelod o staff y Feddygfa wedi gwirio eich bod wedi cwblhau Adran A a/neu B, fe fydd gofyn i chi arwyddo gwaelod y ffurflen. Bydd yr aelod o staff yn arwyddo'r ffurflen hefyd.

Yna, bydd y Feddygfa yn ychwanegu eich manylion 'Gofalwr' at ei chronfa ddata, fel bo pob aelod o staff yn gwybod eich bod yn Ofalwr, ac fe ddylech dderbyn cyngor a chymorth priodol.

Os ydych wedi nodi eich bod yn dymuno derbyn gwybodaeth bellach, bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo, fel y bo'n briodol. **Unwaith bydd eich manylion personol yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata berthnasol, (naill ai'r Feddygfa a/neu CCIS), byddant yn cael eu defnyddio at y dibenion a fanylwyd uchod yn unig.**

Enw'r Feddygfa:

FFURFLEN COFRESTRU / ATGYFEIRIO GOFALWR

Buddsoddwyr mewn Gofalwyr – Sir Gâr

Darllenwch y Nodyn Esboniadol dros y dudalen cyn cwblhau Adran A a/neu B. Os fyddwch chi angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon, yna fe fydd aelod o staff y Feddygfa'n falch o helpu.

Mae fersiwn **Gymraeg** a fersiwn print bras ar gael ar eich cais.

Adran A – Dweud wrth eich Meddygfa eich bod yn Ofalwr

Eich Manylion:	
Enw: (Mr / Mrs / Miss / Ms)	G / B
Cyfeiriad:	
Post code:	D.o.B:
Côd Post:	Côd Post:
Rhif Ffôn:	
e-bost:	
Natur salwch / anabledd / cyflwr y person sy'n derbyn gofal:	

Adran B – Derbyn gwybodaeth bellach

Hoffech chi gael gwybod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael trwy Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr (CCIS)? Gweler dros y dudalen am fwy o wybodaeth.

HOFFWN / NA HOFFWN

Sut ydych chi'n ymdopi gyda'ch rôl gofalu ar hyn o bryd? (ticiwch, os gwelwch yn dda)

Ymdopi'n dda	Prin yn ymdopi	Yn cael trafferth ymdopi	Ar bwynt argyfwng

Arwyddwyd: ..... (Gofalwr) ..... **Dyddiad:** .....

(Sylwer: trwy arwyddo'r ffurflen hon, rydych yn cytuno i ychwanegu eich manylion 'Gofalwr' at eich Cofnod Claf yn y Feddygfa, a byddant yn cael eu pasio i CCIS, os roesoch gylch am 'Hoffwn' yn Adran B)

I'w lenwi gan aelod o staff y Feddygfa yn unig:
Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi gwirio'r wybodaeth uchod, a bod y Gofalwr yn deall y nodiadau esboniadol ac wedi arwyddo'r ffurflen.

Enw a llofnod: .....**Dyddiad:** .....
Unwaith bydd Adrannau A a B wedi cael eu llenwi a'u harwyddo **anfonwch i'r**: Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, Y Palms Uned 3, 96 Heol y Frenhines Fictoria, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 2TH, neu e-bostiwch info@carmarthenshirecarers.org.uk **o fewn 5 diwrnod gwaith**.

Os oes gennych gwestiwn am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ar 0300 0200 002.